SIARC

Cronfa Treftadaeth Heritage Fund | Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru In Partnership with Welsh Government | ON THE EDGE

## UCHAFBWYNTIAU






Buom yn cyd-ddylunio a chyflwyno ‘Môr a Thonnau Pwllheli’ (penwythnos o ddigwyddiadau yn canolbwyntio ar yr arfordir, y môr a’r dreftadaeth ddiwylliannol leol) gyda Ffrindiau Pwllheli, cynghorwyr lleol â phum sefydliad arall. Cafwyd stondinau gwybodaeth, sgyrsiau, gweithgareddau celfyddydol, teithiau cerdded a helfa gasys wyau, a daeth ~90 o ymwelwyr dros y penwythnos.




I gloi cyd-ddatblygiad interniaeth y Pysgotwr Ifanc, cafwyd gweithdy yng Nghlwb Golff Porthmadog. Daeth dau gapten siarter, un pysgotwr masnachol ac un gymdeithas pysgotwyr (Pysgotwyr Môr Angling Cymru), ynghyd â staff o Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a Phrifysgol Bangor.

# ADRODDIAD PROSIECT 5: AWST - TACHWEDD 2024

## PARTNERIAETHAU PYSGOTWYR

- Pysgotwyr wedi rhannu dau gofnod o faelgi o Fae Ceredigion ac un cofnod o faelgi ifanc (30cm) o Fae Caernarfon â’r prosiect.
- Dau gofnod o forgath las wedi’u rhannu o Gaerdydd a Bae Abertawe. Ychwanegwyd yr holl gofnodion at ein cronfa ddata.

## TEGWCH, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT (EDI)

- Mae’r gwaith dylunio ar gyfer cyhoeddi dogfennau’r Adolygiad a’r Cynllun Gweithredu EDI bellach ar y gweill.

## SYSTEMAU FIDEO TANDDWR O BELL AG ABWYD (BRUVS) AC INSTANT WILD

- 48 o BRUVS wedi’u gosod yn Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a’r Sarnau, ac 85 o glipiau fideo BRUVS newydd wedi’u hanfon at ein partneriaid Blue Abacus i’w dadansoddi.
- 16 o glipiau fideo newydd wedi’u llwytho i fyny yn llwyddiannus i lwyfan Instant Wild.

## YMGYSYLLTU AG YSGOLION

- Cynnal pedair sesiwn Cwrdd â’r Gwyddonydd ag ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot fel rhan o’r rhaglen allgymorth argraffu 3D. Cwblhaodd tair o’r ysgolion eu harddangosfeydd 3D yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

## DINASYDDION-WYDDONWYR

- 98 o bobl wedi cymryd rhan mewn saith digwyddiad helfa wyau o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a’r Sarnau.

## DADANSODDI

- Tri phapur gwyddonol, yn canolbwyntio ar BRUVS, DNA Amgylcheddol (eDNA) a safbwyntiau pysgotwyr ynghylch newid mewn pysgodfeydd yng Nghymru, wedi'u cyflwyno i gyfnodolion gwyddonol ac yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

## YMGYSYLLTIAD EHANGACH

- Cyfryngau cymdeithasol wedi cyrraedd 27,949 o gyfrifon.
- Dau ddarn ar-lein wedi'u cyhoeddi - 'Ideas for Building Nature Connectedness - Insights From The Outdoor Connection' ac erthygl yn y Cambrian News
- e-gylchlythyr yr hydref wedi'i anfon – cofrestrwch yma i gael y wybodaeth ddiweddaraf

## GRŴP YMCHWIL

- Dim diweddariadau

## DIGWYDDIADAU DYRANNU

- Gwaith dyrannu ar ddau faelgi i'w gwblhau ym mis Rhagfyr yn ZSL.

## RHEOLI'R PROSIECT

- Dim diweddariadau

| Dibenion Cymeradwy (NNF) | Cynnydd |
|---|---|
| PARTNERIAETH PYSGOTWYR - Cyd-gynllunio Prosiect Siarc gyda physgotwyr a'u cymdeithasau neu glybiau, trwy berthnasoedd gwaith cryfach a mwy amrywiol. | |
| DELIO Â BYLCHAU DATA - Llenwi bylchau data â blaenoriaeth ar sut mae elasmobranciaid yn defnyddio nodweddion gwarchodedig mewn dwy ACA; defnyddio data yng nghyngor a phenderfyniadau CNC, mewn cydweithrediad agos â physgotwyr. | |
| TEGWCH, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT - Dealltwriaeth o safbwyntiau amrywiol a ddefnyddir i oresgyn rhwystrau i gyfranogiad a chyflawni mwy o degwch, amrywiaeth a chynhwysiant ym maes cadwraeth forol yng Nghymru. | |
| CYNNWYS CYMUNEDAU - Mynediad demograffig ehangach i'r amgylchedd morol yng Nghymru gan ddefnyddio rhith-realiti, gweithgareddau GEH ac Instant Wild | |
| YSBRYDOLI'R GENHEDLAETH NESAF - Mae plant ysgol o gefndiroedd amrywiol yn cyflawni deilliannau dysgu ar gynaliadwyedd a'r byd naturiol ac yn dangos hyder mewn technolegau digidol. | |
| ARDDANGOS AMGYLCHEDD MOROL CYMRU - Mae mwy o amrywiaeth o gymunedau yng Nghymru yn dysgu am yr amgylchedd morol, gan ddefnyddio elasmobranciaid fel y canolbwynt mewn cyfathrebu dwyieithog. | |